Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 07.10.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## YMGYRCH: Sadwrn y Busnesau Bach 2022

Bydd Sadwrn y Busnesau Bach 2022 yn digwydd ar 3 Rhagfyr 2022. Mae ystod o ddefnyddiau ar gael i'ch helpu chi i gymryd rhan, gan gynnwys pecyn marchnata am ddim sydd ar gael yn y Saesneg ac yn y Gymraeg – ewch i:

https://smallbusinesssaturdayuk.com

## DIGWYDDIAD: 'The UK Nuclear Renaissance North Wales' – Ar agor i Fusnes 20 Hydref 2022

Bydd Fforwm Niwclear Cymru yn cynnal digwyddiad busnes a rhwydweithio yn M-SParc, Gaerwen, ar 20 Hydref 2022 (12:00pm-5:15pm), fydd yn canolbwyntio ar safbwyntiau diweddaraf sefydliadau sy'n anelu at fod yn rhan o waith adeiladu niwclear newydd a datgomisiynu, gan gynnwys y cyfleoedd posib i fusnesau lleol. Am ragor o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3ykPUAY

## DIGWYDDIAD: Sector Adeiladwaith – Gweithdy 'Sut i brisio job' 21 Hydref 2022

Bydd y Gweithdy 'Sut i brisio job', i'w gynnal yn Busnes@LlandrilloMenai, Ffordd Penlan, Bangor LL57 4HJ ar 21 Hydref 2022 (9:00am-12:00pm), yn canolbwyntio ar agweddau niferus prisio job gyda golwg ar gynorthwyo'r broses dendro. Mae'r gweithdy wedi ei dargedu at fusnesau adeiladu lleol, gan gynnwys adeiladwyr cyffredinol, plymwyr a thrydanwyr. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3Elu8AR

## GWOBRAU: Gwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru 2022

Dymuniadau gorau i'r mentrau cymdeithasol hynny o Wynedd sydd wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru 2022 a gynhelir yn Arena Abertawe ar 10 Hydref 2022 – Wild Elements Hospitality, Bangor; Menter Ty'n Llan, Llandwrog, Caernarfon a Galeri, Caernarfon. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://bit.ly/3V7twVk

## LLES: Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd 2022 10 Hydref 2022

Mae Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd ar 10 Hydref 2022 yn gyfle i siarad am iechyd meddwl a sut mae angen i ni edrych ar ei ôl.

Mae gwybodaeth ac adnoddau i’ch helpu chi ac eich staff ar gael ar:

https://www.mind.org.uk/workplace/workplace-wellbeing-wales/

Mae RCS yn darparu cymorth, hyfforddiant a therapïau i helpu pobl a busnesau ledled Cymru i wella eu llesiant ar gyfer gwaith. Mae manylion am weminarau lles RCS sydd ar y gweill ar gael ar:

https://rcs-wales.co.uk/cy/webinars-cy/

## AMAETH: Ffliw adar yn ardal Arthog – diweddariad

Ar ôl gweithredu gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a Safonau Masnach Cyngor Gwynedd (Iechyd Anifeiliaid), mae’r Parth Diogelu 3km bellach wedi cael ei godi (ers 30 Medi 2022). Mae’r Parth Gwyliadwriaeth 10km fodd bynnag yn parhau yn ei le. Mae rhagor o fanylion am y mesurau yn y Parth Gwyliadwriaeth ar gael ar:

https://llyw.cymru/datganiad-o-barth-gwarchod-parth-gwyliadwriaeth-ffliw-adar-ger-arthog-gwynedd-cymru

## ARIANNU: ‘Start Up Loans – British Business Bank’

Mae British Business Bank, trwy ei bartner, y Start Up Loans Company, yn darparu benthyciadau o hyd at £25,000 ar gyfradd llog wedi’i gosod ar 6% y flwyddyn, sydd hefyd yn cynnwys 12 mis o fentora, i sicrhau bod busnesau newydd yn cael y dechrau gorau. Nid benthyciad busnes yw Start Up Loan, ond benthyciad personol sydd heb ei ddiogelu, a gellir ei dalu dros dymor o 1 i 5 mlynedd ac nid oes ffioedd am drefnu’r benthyciad na’i dalu yn ôl yn gynnar. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.startuploans.co.uk/

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru